# Cyfarfod Panel y Cadeiryddion - POC(2)-09-04-w

## Dydd Mawrth 7 Rhagfyr, 18.05 – 18.54, Ystafell Bwyllgora 2

### Presennol

- Yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Llywydd (Cadair)
- Peter Black AC Cadeirydd Addysg a Dysgu gydol Oes (ADgO)
- Christine Gwyther AC, Cadeirydd Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (DETh)
- Alun Ffred Jones AC, Cadeirydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (ACChG)
- Ann Jones AC, Cadeirydd Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (LlLGC)
- David Melding AC, Cadeirydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (IGC)
- Gwenda Thomas AC, Cadeirydd Cyfle Cyfartal (CC)
- Paul Silk, Clerc y Cynulliad
- Karin Phillips, Pennaeth, Gwasanaethau Pwyllgor ac Ymchwil yr Aelodau (GPYA)
- Gwen Parry, Cyfarwyddwr, Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cynulliad (GCC)
- Peter Jones, Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad
- Adrian Green, Ysgrifennydd Preifat i'r Llywydd
- Lara Date, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, GPYA
- John Grimes, Clerc y Pwyllgor, GPYA

### Ymddiheuriadau

- Rosemary Butler AC, Cadeirydd Diwylliant, Y Gymraeg a Chwaraeon (DGCh)
- Janet Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio (PA)
- Janice Gregory AC, Cadeirydd Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (CCA)
- Sandy Mewies AC, Cadeirydd Materion Ewropeaidd ac Allanol (MEA)

### Cyflwyniad

1. Enwebwyd David Melding AC yn Gadeirydd dros dro i'r cyfarfod nes i'r Llywydd gyrraedd o achlysur arall. Croesawodd bawb i'r cyfarfod.

### Eitem 1 – Cofnodion y cyfarfod blaenorol

1.1 Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 9 Tachwedd ac fe'u cyhoeddir ar y rhyngrwyd.

Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi'r cofnodion ar y rhyngrwyd.

## Eitem 2 – Materion sy'n codi

2.1 Nododd y Panel y materion oedd yn codi. Croesawodd Gwenda Thomas AC y ffaith y byddai Gwahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn dod i'r cyfarfod nesaf i friffio'r Panel ar brif-ffrydio cydraddoldeb.

## Eitem 3 – Y Berthynas â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – gorolwg gan Stephen Thomas, y Cyfarwyddwr newydd

3.1 Aeth y Llywydd i'r Gadair a chroesawu Stephen Thomas i'r cyfarfod. Croesawodd Cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y cyfle i siarad â'r Panel, a gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd CLlLC wedi cyfrannu'n helaeth i'r Pwyllgorau ac ar y cyfan roedd y rhyngwyneb a'r deialog yn gyfeillgar ac yn adeiladol. Ar adegau, fodd bynnag, teimlai CLlLC ei bod hithau'n wrthrych craffu gan y Pwyllgorau yn hytrach na'i bod yn darparu gwybodaeth yn sail i waith y pwyllgorau wrth iddynt graffu ar waith y Gweinidogion.
- Roedd y Panel yn awyddus i bwysleisio mai fel partner cydradd y gwelai CLlLC a bod ffin bendant rhwng craffu ar waith y Gweinidog a chraffu ar waith llywodraeth leol. Cydnabuwyd fodd bynnag mai priodol weithiau oed monitro gweithredu awdurdodau lleol ar argymhellion a wnaed mewn adroddiadau neu ymchwiliadau allweddol e.e. Adroddiad Waterhouse.
- Hoffai CLlLC gael gwybod pan ofynnid i awdurdodau unigol roi tystiolaeth i bwyllgor, a byddai'n ceisio bob amser sicrhau darparu digon o wybodaeth i'r Pwyllgorau i sicrhau trafodaeth gytbwys.
- Roedd hi'n bwysig i GLlLC dderbyn gwybodaeth am wahoddiadau am sylwadau neu bresenoldeb mewn cyfarfod pwyllgor yn ddigon cynnar i ganiatau digon o amser ar gyfer paratoi ymateb llawn. Nodwyd bod protocol mewnol CLlLC yn caniatau mis o leiaf i awdurdodau lleol ymateb i geisiadau am wybodaeth.
- Roedd adnoddau cyfyng CLlLC yn golygu eu bod weithiau'n gorfod blaenoriaethu'u mewnbwn i bwyllgorau, er y byddent yn anelu am ddarparu, o leiaf, ymateb ysgrifenedig.
- Nid oedd hi'n bosibl bob amser i GLlLC anfon gwleidyddion, yn enwedig rhai a leolid yng Ngogledd Cymru. Awgrymwyd y gallai'r pwyllgorau ystyried y posibilrwydd o gymryd tystiolaeth yng Ngogledd Cymru neu ddefnyddio cyswllt-fideo.
- Byddai CLlLC yn gallu parhau i ymwneud yn uniongyrchol â Chadeiryddion Pwyllgorau ar faterion penodol ond cytunwyd y byddai amserlennu cyfarfod blynyddol rheolaidd â'r Panel yn ddefnyddiol.

Gweithredu: (1) Byddai Cyfarwyddwr CLlLC yn derbyn gwahoddiad i gyfarfod â'r Panel bob blwyddyn. (2) Byddai Cadeiryddion a Chlerciaid yn nodi faint o amser sydd ei angen er mwyn i GLlLC ymateb i geisiadau am wybodaeth neu dystiolaeth ac yn ystyried cymryd tystiolaeth y tu allan i Gaerdydd. (3) Swyddogion GSC i baratoi papur ar y dewisiadau ar gyfer derbyn tystiolaeth dros gyswllt fideo.

## Eitem 4 – Eitemau'r Cadeirydd

4.1 Nid yw'r Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd yn caniatau i'r Cyfarfod Llawn anfon deddfwriaeth sylfaenol at y PCC ac nid ydynt yn cynnwys trafod deddfwriaeth yng nghylch gwaith y PCC. Gofynnodd Cadeirydd y PCC am gefnogaeth y Panel wrth i'r PCC ofyn am gyfle i drafod y Mesur Cydraddoldeb a'r Mesur Gwahaniaethu ar sail Anabledd, mesurau sydd ill dau yn berthnasol i'w gyfrifoldeb am archwilio trefniadau'r Cynulliad i hybu cydraddoldeb. Nodwyd bod y Mesur Cydraddoldeb wedi'i anfon at CCA gan y Cyfarfod Llawn ac y gellid yn y tymor byr drefnu i'r PCC gyd-graffu arno. Nid oedd y Panel fodd bynnag yn gwrthwynebu newid y Rheolau Sefydlog er mwyn caniatau i'r Cyfarfod Llawn anfon Mesurau at y PCC yn ogystal ag at y Pwyllgorau Pwnc yn Rheol Sefydlog 6.6(iv).

Gweithredu: GPYA a'r Clerc i ddrafftio'r gwelliant angenrheidiol i'r Rheolau Sefydlog a'i anfon at y Pwyllgor Busnes er mwyn i'r Pwyllgor Busnes anfon deddfwriaeth sylfaenol berthnasol at y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

4.2 Dywedodd Cadeirydd IGC fod aelod o'r Pwyllgor yng nghyfarfod Busnes y Pwyllgor IGC yr wythnos diwethaf wedi crybwyll posibilrwydd sefydlu is-bwyllgor i ganolbwyntio ar graffu. Nodwyd bod is-bwyllgorau'n cael eu cynnwys yn y Rheolau Sefydlog a byddai ganddynt holl bwerau a diogelwch y Pwyllgorau llawn.

4.3 Roedd Cadeirydd Pwyllgor yr ACChG wedi derbyn Mesur Lles Anifeiliaid manwl iawn ac efallai na fyddai amser ar gael i ganiatau craffu digonol gan y Pwyllgor llawn. Ond iddynt lwyddo i gael amser i gyfarfod, gellid sefydlu is-bwyllgor craffu i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, a hwnnw wedyn yn adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn. Gofynnodd y Panel am bapur yn egluro statws a rôl is-bwyllgorau.

Gweithredu: GPYA i ddarparu papur ar sut mae is-bwyllgorau'n gweithredu.

4.4 Dywedodd Cadeirydd ADgO i fod diffyg cworwm mewn cyfarfod ychwanegol dewisol ar brynhawn Iau yn ddiweddar. Gofynnodd am eglurhad o'r drefn i'w dilyn ar achlysur felly. Anogodd y Llywydd y Cadeiryddion a'r Clerciaid i wneud eu gorau glas i gadw'r cworwm. Pe na bai hynny'n bosibl fodd bynnag, a'r Gadair yn penderfynu na ellid yn rhesymol derfynu'r cyfarfod (e.e. oherwydd bod yno gyflwynwyr allanol), dylai ef/hi ei gwneud hi'n eglur bod y cyfarfod bellach yn drafodaeth anffurfiol ac na fyddai'r Rheolau Sefydlog a diogelwch o ran cyfreithiau difenwi yn gymwys. Gofynnodd y Panel am fwy o ganllawiau.

Gweithredu: GPYA i ddarparu papur ar y drefn sy'n gysylltiedig â chworwm mewn cyfarfodydd.

## Eitemau i'w nodi

## Eitem 5 – Amserlen tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf 2005

5.1 Nododd y Panel yr amserlen gyfnodol.

5.2 Tynnodd Cadeirydd DETh sylw at wrthdaro posibl ar 24 Chwefror rhwng between DETh a MEA gan fod MEA yn meddwl cyfarfod ym Mrwsel. Mynegodd mai canlyniad braf ailwampio'r Gwasanaethau Pwyllgor oedd bod DETh a MEA'n rhannu'r un tîm, ac y gellid o bosibl drefnu busnes DETh fel bod hwnnw hefyd yn cyfarfod ym Mrwsel. Pe na bai hyn yn bosibl dywedodd Cadeirydd DETh y byddai hi'n gofyn am i slot dewisol DETh ar 24 Chwefror gael ei symud i ddyddiad arall.

## Eitem 6 – Dyddiadau ac agendau ar gyfer cyfarfodydd y Panel yn Nhymor y Gwanwyn.

6.1 Nododd y Panel y dyddiadau a'r agendau.

## Eitem 7 – Sylw'r cyfryngau i'r Pwyllgorau

7.1 Nododd y Panel y sylw helaeth a roddwyd gan y cyfryngau ym mis Tachwedd, yn enwedig y sylw ardderchog a roddwyd i adroddiad adolygiad Anghenion Addysgol Arbennig ADgO. Cytunwyd fod y drafodaeth ddefnyddiol a gawsai'r Panel ag Ashok Ahir o'r BBC wedi cyfrannu at y gwelliant.

7.2 Diolchodd y Panel i Jacqui Bowen, ei chydweithwyr GCC a'r Timau Clercio.

Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i adborthi gwerthfawrogiad y Panel o'r sylw a gaed gan y cyfryngau.

## Mwy o Eitemau i'w trafod

## Eitem 8 – Datblygiad Cynaliadwy a Chynllun Gofodol Cymru

8.1 Nododd y panel y papur. Mynegwyd bod y Pwyllgor LlLGC yn disgwyl edrych ar y Cynllun Gofodol eto yn y dyfodol ond bod lle i'r pwyllgorau gyd-drafod y Cynllun am ei fod yn effeithio ar nifer o feysydd polisi e.e. y strategaeth datblygu economaidd, 'Cymru'n Ennill'.

Gweithredu: Pennaeth GPYA i ymchwilio'r posibiliadau ar gyfer cydweithio rhwng pwyllgorau wrth graffu ar y Cynllun Gofodol.

## Eitem 9 – Craffu ar Ddeddfwriaeth yr UE

9.1 Cyflwynodd Clerc y MEA ymddiheuriad gan Gadeirydd MEA.Roedd y cynigion diwygiedig ar gyfer craffu ar waith yr UE yn y papur gerbron y Panel yn rhan o'r broses o glustnodi'n amserol y materion sydd o bwys i Gymru. Roedd y Pwyllgor MEA wedi'u harnodi.

9.2 Croesawodd y Panel y dull diwygiedig a chytunodd y byddai'n helpu'r pwyllgorau i ganolbwyntio ar y dogfennau allweddol lle roedd posibilrwydd dylanwadu ar eu datblygiad.

Roedd peth pryder ynghylch diffyg mecanwaith ffurfiol yn y Cynulliad ar gyfer ymgorffori sylwadau’r Pwyllgorau ac roedd angen trefn gadarn i sicrhau bod dogfennau a glustnodwyd gan bwyllgorau yn cael eu dwyn ymlaen ar yr adeg briodol. Crybwyllwyd rhai enghreifftiau o arferion da a dylid rhannu’r rhain ar draws y pwyllgorau.

9.3 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod Anna Daniel, Dadansoddwr newydd Polisiau’r UE ar gyfer GSC, gan bwysleisio y byddai hi’n ychwanegu gwerth at y broses. Byddai Anna yn mhwyllgorau’r MEA a’r Ty yn nes ymlaen yn yr wythnos ac yn cyfarfod â phwyllgorau eraill yn y Flwyddyn Newydd. Tynnodd y Llywydd sylw’r Panel hefyd at y cynllun i ganiatau mynediad at yr adnoddau ymchwil sydd ar gael ar fewnrwyd T’r Cyffredin – adnoddau fyddai hefyd yn helpu yn y broses o graffu ar waith yr UE.

## Eitem 10 – Y diweddaraf ar Gydweithio â’r Pwyllgor Materion Cymreig (WAC)

10.1 Nododd y Panel y nodyn anffurfiol am y cyfarfod gyda’r PMC ar 1 Tachwedd.

10.2 Roedd hi’n debygol y byddai’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda’r Pwyllgor Materion Cymreig ar Fesur Drafft Comisynydd ar gyfer Pobl Hy^n yng Nghymru a gyhoeddwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw, a hynny’n ogystal â chydweithio ar y Mesur Drafft Iechyd Meddwl.

## Eitem 11 – Unrhyw Fater Arall

11.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

**Gwasanaeth Pwyllgor ac Ymchwil yr Aelodau**
**Rhagfyr 2004**